Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Llysoedd

Gorffennaf 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a Llysoedd[1] (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 7 Mai 2025. Fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**2.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nodir fel a ganlyn:

> *"The Victims and Courts (VAC) Bill will make provision about victims and about procedure connected to criminal justice and the administration of criminal justice so far as they relate to the prosecutorial function and sentencing."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

> *"... make provision about the experience of victims within the criminal justice system; about the functions of the Commissioner for Victims and Witnesses; and about procedure and the administration of criminal justice."*[3]

**4.** Dechreuodd y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mehefin 2025 ac fe'i cwblhawyd ar 24 Mehefin 2025. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd dyddiadau ar gyfer y cyfnod adrodd na'r trydydd darlleniad wedi'u cadarnhau eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**6.** Ar 20 Mai 2025, gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil (y Memorandwm) gerbron y Senedd.[4]

[1] Y Bil Dioddefwyr a Llysoedd, fel y'i cyflwynwyd (Bil 233) [Saesneg yn unig]
[2] Nodiadau Esboniadol i'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, paragraff 1 [Saesneg yn unig]
[3] Y Bil Dioddefwyr a Llysoedd, fel y'i cyflwynwyd
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Llysoedd, 20 Mai 2025

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 18 Gorffennaf 2025.[5]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**8.** Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 7 o'r Bil (Dyletswydd i gydweithredu â'r Comisiynydd: ymddygiad gwrthgymdeithasol), sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a darparwyr tai cymdeithasol, pan fônt yn ymgysylltu â dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, i gydweithredu â'r Comisiynydd Dioddefwyr pan fo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i wneud hynny.

**9.** Yn y Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi: "Mae'r mesur yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau datganoledig yng Nghymru sy'n golygu bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y darpariaethau hyn."[6]

**10.** O ran barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gydsyniad, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm fod Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried bod cymal 7 yn sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol.[7]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**11.** Ym mharagraff 3 o'r Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi: "Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch y Bil, sydd wedi cynnwys rhannu amlinelliad o'r mesurau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil." Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn mynd ymlaen i ddatgan:

> *"Mae swyddogion wedi cael trafodaethau cynnar, cyson a chadarnhaol gyda swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Bil ddatblygu.*
>
> *Ysgrifennodd y Gweinidog Dioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ar 7 Mai*

[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Llysoedd, Mehefin 2025
[6] Y Memorandwm, paragraff 10
[7] Y Memorandwm, paragraffau 11 a 12

*2025 gan dynnu sylw at y ffaith y byddai'r holl fesurau yn y Bil ar adeg eu cyflwyno yn berthnasol ac yn gymwys i Gymru."*[8]

**12.** Ym mharagraff 13 o'r Memorandwm, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi:

*"Yn fy marn i, mae'n briodol i'r Bil hwn wneud darpariaeth ar gyfer Cymru, gan fod y Bil hwn yn ymwneud yn bennaf ag erlyn, dedfrydu a rheoli troseddwyr. Mae'r materion hyn wedi'u cadw yn ôl i raddau helaeth."*

**13.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil ac mae'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.[9]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**14.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 23 Mehefin 2025[10], a gwnaethom drafod a chytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025.[11]

## Ein barn ni

### Cydsyniad deddfwriaethol

**15.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r ddarpariaeth yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer, fel y'i nodir yn y Memorandwm. Nodwn ymhellach fod cymal 7 yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 7 o'r Bil yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### Gweithio rhynglywodraethol

**16.** Nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn datgan yn y Memorandwm fod ymgysylltu wedi digwydd cyn cyflwyno'r Bil rhwng swyddogion Llywodraeth

---

[8] Y Memorandwm, paragraffau 8 a 9
[9] Y Memorandwm, paragraff 15
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 23 Mehefin 2025
[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Gorffennaf 2025

Cymru a swyddogion y Swyddfa Gartref, a oedd yn cynnwys rhannu amlinelliadau o'r mesurau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil.

**17.** Nodwn ymhellach fod swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cael "trafodaethau cynnar, cyson a chadarnhaol gyda swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r Bil ddatblygu".

## Pwerau dirprwyedig

**18.** Nodwn nad yw'r Bil yn rhoi unrhyw bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru.